Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Geiriau a termau defnyddiol

Wrth gynllunio gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru



2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Ymgynghoriad ar ddiwygiadau arfaethedig i'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Comisiynu Gofal a Chymorth: Cod Ymarfer – Geirfa.**



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Rydych chi'n gallu gofyn i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: Fframwaith cenedlaethol ar gyfer comisiynu gofal a chymorth | LLYW.CYMRU

Ebost: ComisiynuCenedlaethol@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall. Cliciwch yma i ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl.

Cynnwys

Am y ddogfen yma 4

Geiriau a termau defnyddiol 7

Am y ddogfen yma



Dyma restr o eiriau sy'n cael eu defnyddio'n aml wrth gomisiynu gofal.

Mae comisiynu gofal yn meddwl:



- Darganfod pa ofal a chefnogaeth mae pobl ei angen i.



- Penderfynu pa wasanaethau ddylai fod ar gael.



- Trefnu a thalu am y gwasanaethau.




- Edrych i weld bod y gwasanaethau'n gweithio'n dda.



Mae'r rhestr yma yn esbonio beth mae'r geiriau a'r termau yn feddwl.



Fe fydd hyn yn eich helpu i gymryd rhan mewn cynllunio a threfnu gwasanaethau gofal.



Mae gwybodaeth am y rheolau mae'n rhaid i fyrddau iechyd a chynghorau lleol eu dilyn pan fyddan nhw'n comisiynu gofal.



Mae'n dweud bod yn rhaid iddyn nhw gynnwys pobl a'u gofalwyr mewn comisiynu gofal.



Rydych chi'n gallu darllen mwy am y rheolau yn y ddogfen yma:

Gwasanaethau gofal a chymorth yng Nghymru. Newidiadau i'r rheolau ar gyfer cynghorau lleol a byrddau iechyd.

Geiriau a termau defnyddiol



Cynnig Gweithredol

Gwneud yn siŵr bod pobl yn gallu cael gwasanaethau yn Gymraeg neu Saesneg. Heb orfod gofyn.



Addasu i'r hinsawdd

Gwneud newidiadau yn y ffordd rydyn ni'n gweithio i helpu i amddiffyn y blaned.



Cyd-gynhyrchu

Mae hyn yn meddwl bod pobl yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal. Maen nhw'n penderfynu sut ddylai gwasanaeth fod a sut mae'n gallu cael ei wella.



Comisiynu

Darganfod pa wasanaethau mae pobl eu hangen, cynllunio sut i'w darparu, ac edrych I weld eu bod yn gweithio'n dda.



Cydymffurfio

Dyma pan fydd gwasanaeth yn dilyn y rheolau sy'n berthnasol i'w gwaith.



Cynaliadwyedd amgylcheddol

Gofalu am yr amgylchedd. Er enghraifft, trwy leihau gwastraff ac arbed ynni.



Gweithredu

Rhoi cynllun, polisi, neu ffordd newydd o weithio ar waith.

Gwasanaethau Gofal Cymunedol Integredig



Gwahanol wasanaethau yn gweithio gyda'i gilydd. Er enghraifft, gofal iechyd, gofal cymdeithasol, tai, a chymorth cymunedol.

Niwroamrywiol



Mae niwroamrywioldeb yn meddwl bod ymennydd person yn gweithio'n wahanol. Mae'n cynnwys pethau fel anabledd dysgu, ADHD ac awtistiaeth.



Dulliau niwrogynhwysol

Gweithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi pobl sy'n meddwl, dysgu neu gyfathrebu'n wahanol.

Canlyniadau



Canlyniadau ydy'r gwahaniaethau mae gwasanaethau cymorth yn eu gwneud. Er enghraifft, y newidiadau neu'r gwelliannau ym mywyd person.

Caffael



Mae hyn yn meddwl y ffordd mae gwasanaethau yn prynu nwyddau, gwasanaethau neu offer maen nhw eu hangen. Er enghraifft, mae'r cyngor yn prynu gwasanaethau gofal gan sefydliad arall.



Gwerth cyhoeddus

Y gwahaniaeth mae gwasanaethau cyhoeddus yn ei wneud i bobl a chymunedau.



Comisiynu perthynol

Ffordd o gynllunio a gwella gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar weithio gyda'n gilydd.



Gwydn

Gallu delio gyda heriau a gwneud newidiadau pan mae angen.

Partneriaeth gymdeithasol



Gwahanol grwpiau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatrys problemau a gwella canlyniadau. Er enghraifft, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau.



Digonolrwydd gwasanaethau lleol

Gwneud yn siŵr bod digon o wasanaethau lleol i ateb anghenion pobl.